

NEWYDDION PARTNERIAETH



Croeso i rifyn Nadoligaidd cylchlythyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Wrth i 2025 ddod i ben, rydym yn dathlu'r gwaith, y partneriaethau a'r cynnydd anhygoel ar draws Caerdydd a'r Fro. Mae ein "12 Diwrnod o Nadolig y BPR" Nadoligaidd yn edrych yn ôl ar uchafbwyntiau'r flwyddyn — o gynadleddau mawr a phrosiectau cymunedol, i ymgysylltu drwy brofiad bywyd, gwaith atal, a datblygiad ein Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at wella iechyd a lles ein rhanbarth. Dyma at flwyddyn arall o gydweithio a newid cadarnhaol.

Ar ddiwrnod cyntaf y Nadolig, rhoddodd y BPR i mi...



Cynhadledd yn Nheml Heddwch

1

Croesawodd ein Cynhadledd Flynyddol Stronger Together: Celebrating Our Partnership dros 250 o bobl, gyda 7 gweithdy, dros 40 o stondinau marchnad, siaradwyr ysbrydoledig, a chyfraniadau pwerus gan bobl â phrofiad bywyd.

Dau Gynrychiolydd Gofalwyr Di-dâl Annibynnol

2

Llwyddwyd i recriwtio dau Gynrychiolydd Gofalwyr Di-dâl Annibynnol i weithio gyda'r BPR i ddarparu profiad bywyd a helpu i lywio ein gwaith a'n cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Tri Gweithdy yn Rhedeg

3

Cynhaliwyd tri gweithdy llwyddiannus eleni yn canolbwyntio ar Arweinyddiaeth Dosturiol a sut mae aelodau'r BPR eisiau siapio eu ffordd o weithio gyda'i gilydd yn y dyfodol.



Pedair Blaenoriaeth wedi'u Nodi

4

Rydym wedi nodi pedair blaenoriaeth ar gyfer ffocws manwl yn y flwyddyn i ddod: Y 1,000 diwrnod cyntaf, Gwasanaethau Gofal Cymunedol Integredig (ICCS, Gweithio digidol, Bywydau Iach



CYNLLUNIAU PUM MLYNYDD

5

Mae ein Cynllun Ardal ar y Cyd 2023–28 yn parhau i gefnogi newid system ar draws ystod o ymrwymadau a rennir: Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda a Galluogwyr Partneriaeth. Er enghraifft, rydym wedi...



Chwe Phrosiect sy'n Gyrru

6

Mae gennym chwe phrosiect yn gyrru datblygiad System Gofal Cymunedol Integredig: Mynediad, Clystyrau Cyflym, Ymateb i Argyfwng, Ailalluogi Cymunedol, Ailalluogi Seiliedig ar Wely, O'r Ysbyty i'r Cartref

Saith Rhanddeiliad yn Siarad

7

Mae ein cynlluniau BPR yn cael eu llywio gan fframwaith ymgysylltu sy'n sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda phobl â phrofiad bywyd, gofalwyr, dinasyddion, darparwyr gwasanaethau, y trydydd sector, y Bwrdd Iechyd a chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol. - Amcangyfrifwn ein bod wedi cynnal o leiaf 40 ymarfer ymgysylltu eleni, gan gynnwys tua 900 o sgysiau. Gallwch gymryd rhan mewn rhai o'n sgysiau parhaus drwy ein platfform ymgysylltu: <https://participate.cavrp.org/>



Wyth Grant ar Waith

8

Yn ogystal â'n Cronfa Integreiddio Rhanbarthol, mae'r BPR hefyd yn rheoli nifer o ffrydiau cyllid ychwanegol, gan gynnwys: Seibiannau Byr i Ofalwyr, Cymunedau Cyfeillgar i Dementia, Asesu Cof, Awtistiaeth Integredig, Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso, Cronfa Tai â Gofal, Cronfa Gyfalaf y Trydydd Sector

Naw Pennod yn Cael eu Hysgrifennu

9

Ffryd gwaith newydd eleni yw datblygu dull diwygiedig o'n Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth. Eleni rydym wedi canolbwyntio ar anghenion pobl â phrofiad bywyd o Anableddau Dysgu a Babanod, Plant a Phobl Ifanc. Yn y dyfodol, bydd hyn yn cael ei ehangu i gynnwys: Pobl Hŷn, Niwroamrywiaeth, Iechyd Meddwl a Dementia, Nam ar y Synhwyr, Gofalwyr, VAWDASV, Digartrefedd ac Ystâd Ddiogel - Yn rhyngweithiol, hygyrch ac wedi'i gyd-gynhyrchu.

Deg Dangosfwrdd yn Mesur

10

Rydym wedi cryfhau ein mesurau data a pherfformiad i ddangos cynnydd ar draws holl feysydd ein Cynllun Ardal ar y Cyd.



Un Deg Un Gweithdy yn Rhedeg

11

Roedd y pynciau gweithdai eleni yn cynnwys Niwroamrywiaeth, ICCS, Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl, Goleudy, Cyfalaf, Dementia, Gofalwyr, Comisiynu, y Gweithlu a Digidol. Amcangyfrifwn ein bod wedi cynnal 140 o weithdai a fynychwyd gan 900 o bobl.



Deuddeg Mis o Gyfarfodydd y BPR

12

12 mis o gyfarfodydd y BPR: Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Grwpiau Arwain Strategol, Grwpiau Cyflawni, sesiynau ymgysylltu, gweithdai a digwyddiadau. Amcangyfrifwn ein bod wedi cynnal 1,200 o gyfarfodydd a fynychwyd gan 3,000 o bobl.

Diolch am fod yn rhan o'n teulu partneriaeth rhanbarthol. Gyda'n gilydd rydym wedi cryfhau gwasanaethau, cefnogi cymunedau, a gosod y sylfeini ar gyfer gwaith effeithiol yn 2026.

Dymunwn Nadolig llawen, heddychlon a chysylltiedig i'n holl bartneriaid, staff a chymunedau.

Oddi wrth bawb yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro — Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!